# Gwneud Penderfyniadau ar y Cyd:

Cynllun cyfranogiad hygyrch i gefnogi plant a phobl ifanc i fod yn rhan o benderfyniadau strategol

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

# Cynllun cyfranogiad hygyrch, cam wrth gam, dan arweiniad oedolion yw hwn

**Nod:** Mae'r cynllun hwn yn nodi sut mae cefnogi grŵp o blant a phobl ifanc i fod yn rhan o benderfyniadau ynghylch sut mae gwella gwasanaeth.

**Cynulleidfa:** Mae hwn yn gynllun hygyrch, a luniwyd i'w ddefnyddio gyda phob plentyn, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

## Canlyniadau

- Bydd defnyddio'r cynllun cyfranogiad hwn yn galluogi plant a phobl ifanc i fod yn rhan o'r cynllunio am faterion sy'n effeithio arnyn nhw.
- Bydd yn arbennig o ddefnyddiol i awdurdodau lleol a chyrff iechyd ei ddefnyddio er mwyn cynnwys plant a phobl ifanc wrth gynllunio ac adolygu eu dull strategol o ymdrin ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, fel y nodir ym Mhennod 5 o'r Côd Anghenion Dysgu Ychwanegol i Gymru 2021;
- Mae modd hefyd i unrhyw sefydliad ei ddefnyddio'n ddull hygyrch o sicrhau bod plant yn cael llais wrth gynllunio'n strategol.

## Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Dynol Plant

Lluniwyd y pecyn offer hwn i helpu i ddatblygu Y Ffordd Gywir: dull gweithredu seiliedig ar hawliau dynol plant. Mae'n cefnogi'n arbennig egwyddorion **Grymuso** a **Chyfranogiad**. Bydd yn cefnogi plant i brofi eu hawliau dynol, gan gynnwys:

**CCUHP**

Erthygl 2: cydraddoldeb a pheidio â chamwahaniaethu;

Erthygl 12: yr hawl i gyfranogi mewn penderfyniadau;

Erthygl 13: yr hawl i gael gwybodaeth;

Erthygl 15: yr hawl i gwrdd â ffrindiau ac ymuno â grwpiau;

Erthygl 23: yr hawl i gael cymorth os oes gennych chi anabledd

**CCUHPA**

Erthygl 7: mae gan blant anabl yr un hawliau â phob plentyn arall

Erthygl 9: mae gan bobl anabl hawl i gyfranogiad llawn yn y gymdeithas

Erthygl 23: mae gan blant anabl a'u teuluoedd hawl i wybodaeth a chefnogaeth

Erthygl 24: mae gan blant anabl hawl i addysg gynhwysol gyda chefnogaeth i ddatblygu eu sgiliau a'u doniau yn llawn

## Sut mae defnyddio'r cynllun sesiwn

Mae'r cynllun sesiwn a'r adnoddau yn cyflwyno dull gweithredu y gall gweithwyr proffesiynol ei addasu a'i newid i fod yn addas i'r plant a'r bobl ifanc unigol mewn grŵp. Mae'n cynnwys syniadau ynghylch sut gallwch chi strwythuro gweithgareddau. Bydd yn darparu sylfaen ar gyfer addasu a theilwra gweithgareddau fel eu bod nhw'n diwallu anghenion penodol plant. Rydyn ni'n argymell bod sefydliadau'n trafod eu cynlluniau sesiwn yn fanwl gyda gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio'n rheolaidd gyda'r grŵp, er enghraifft, athro, gweithiwr ieuenctid, neu arweinydd y grŵp.

## Cynghorion Gwych gan Ysgol Tŷ Coch

I'ch helpu i gynllunio sut gallwch chi ddefnyddio'r sesiynau hyn gyda grŵp, ystyriwch y cynghorion canlynol, a grewyd gan athrawon yn ysgol arbennig Tŷ Coch. Canllaw yw'r rhain i'ch helpu i feddwl am eich gwaith gyda phlant a phobl ifanc.

Byddai athrawon Tŷ Coch bob amser yn argymell cael sgwrs gyda'r aelod o staff sy'n cefnogi'r plant a'r bobl ifanc y byddwch chi'n gweithio gyda nhw.

1. **Arsylwi'r dosbarth cyn y sesiwn**
   - Efallai na fydd hyn yn bosib, ond fe fyddai'n fuddiol. Gallwch chi weld sut mae'r gweithiwr cyswllt yn cyflwyno'r sesiwn a gwneud nodiadau ar y mathau o adnoddau maen nhw'n eu defnyddio.

2. **Anfon gwybodaeth ymlaen llaw**
   - Geirfa graidd a symbolau a fyddai'n cefnogi plant a phobl ifanc dieiriau (efallai bydd y gweithiwr cyswllt yn gallu'ch helpu i ddewis pa symbolau i'w defnyddio).
   - Stori gymdeithasol – gallech chi anfon stori gymdeithasol i'ch cyflwyno eich hun i'r grŵp. Rydyn ni wedi cynnwys enghraifft o stori gymdeithasol yma.
   - Anfonwch becyn cyflwyno i egluro beth a phwy yw eich swyddfa a'ch tîm. Gallai hyn gynnwys modd i adnabod person (llun ohonoch eich hunan), arogl (os yw hynny'n berthnasol i'ch sefydliad) neu sŵn. Yna gall y gweithiwr cyswllt ddefnyddio'r wybodaeth yma i'ch cyflwyno chi a'ch tîm ac atgoffa pobl ifanc pryd byddwch chi'n ymweld â nhw.

3. **Amseru eich sesiwn**
   - Bydd angen rhannu'r sesiwn yn adrannau llai ar gyfer rhai plant a phobl ifanc. Bydd eich gweithiwr cyswllt yn gallu esbonio beth fyddai'n gweithio orau i'ch sesiwn chi. Gallai hynny olygu cyn lleied â 10 munud fesul sesiwn.
   - Gofynnwch i'ch gweithiwr cyswllt pa adeg o'r dydd fyddai orau i gynnal y sesiwn.

4. **Dod ag amserlen weledol**
   - Rydyn ni wedi cynnwys enghreifftiau o amserlenni gweledol yn ein cynllun sesiwn. Bydd amserlenni gweledol yn cefnogi plant a phobl ifanc i ddeall beth mae angen iddyn nhw fod yn rhan ohono/ei gwblhau yn ystod eich sesiwn.

5. **Iaith**
   - Cadwch yr iaith yn gryno.

- Cadwch y brawddegau'n fyr.
- Gofalwch fod yr iaith yn briodol i oed y plant.

**6. Meithrin perthynas**

- Efallai bydd yn cymryd amser i'r plant a'r bobl ifanc ddod yn gyfarwydd â chi – mae hynny'n iawn. Byddwch yn amyneddgar.
- Efallai na fydd gan y plant a'r bobl ifanc atebion i'ch cwestiynau – mae hynny'n iawn. Gadewch iddyn nhw wybod fod hynny'n iawn.
- Byddwch yn gyson. Ceisiwch wisgo'r un dillad wrth ymweld â'r grŵp, a pheidiwch â newid sut rydych chi'n edrych (er enghraifft, eich gwallt). Hefyd gallech chi gyflwyno eich sesiynau ar yr un diwrnod i sicrhau cysondeb.
- Rhowch amser i'ch grŵp siarad ar ddiwedd y sesiwn. Efallai bydd ganddyn nhw ragor o wybodaeth i'w rhannu gyda chi.

**7. Adnoddau**

- Dylech chi lamineiddio'r Symbolau Widgit / PECS rydych chi'n eu defnyddio yn y sesiwn
- Os ydych chi'n defnyddio E-Tran neu Eye-Gaze bydd angen adnoddau heb eu lamineiddio arnoch chi hefyd
- Gall Velcro a blu-tac fod yn ddefnyddiol wrth ddefnyddio Symbolau Widgit/PECS hefyd – bydd eich gweithiwr cyswllt yn gallu rhoi gwybod i chi a fydd angen y rhain arnoch chi
- Efallai bydd eich sefydliad am fuddsoddi mewn system fel PECS/ Widgit i'ch cefnogi i greu symbolau
- Peidiwch â mynd i banig os byddwch chi'n anghofio symbol. Gallwch chi wneud 'jig', sef llunio fersiwn syml o'r symbol yn ystod y sesiwn.

**8. Dathlwch yr enillion**

- Dathlwch waith y grŵp. Does dim ots pa mor fach.
- Cymerwch amser i ddod i adnabod y plant a'r bobl ifanc yn y grŵp. Dathlwch eu cyfraniadau.

## Sesiwn mewn Stori

Rydyn ni wedi cynnwys disgrifiad byr o sut gallai sesiwn seiliedig ar y cynllun weithio. Mae hyn wedi cael ei greu gan ddefnyddio ein profiad o gyflwyno sesiynau tebyg i'r rhai sy'n cael eu disgrifio yn y cynllun, ond nid disgrifiad uniongyrchol o brosiect sydd yma. Yn ystod cyfnod prawf y pecyn offer yma bydden ni'n hoffi casglu eich 'sesiynau mewn stori' er mwyn i ni fedru crisialu'r gwahanol ffyrdd o ddefnyddio'r cynllun hwn i roi llais i blant a phobl ifanc.

Gwahoddir pob sefydliad sy'n defnyddio'r cynllun hwn i ysgrifennu eu 'Sesiynau mewn Stori' eu hunain. Rhannwch nhw gyda'r Comisiynydd Plant, os gwelwch yn dda post@complantcymru.org.uk

Cofiwch gynnwys:

- Eich enw;
- Enw eich sefydliad;
- Pam rydych chi'n ymgysylltu â phlant a phobl ifanc;
- Eich 'Sesiynau mewn Stori' – disgrifiad o bob un o'r sesiynau y buoch chi'n eu cyflwyno.
- Peidiwch â chynnwys enwau'r plant nac unrhyw wybodaeth arall sy'n golygu bod modd adnabod unigolion.

Lle bo hynny'n briodol, byddwn ni'n cyhoeddi fersiynau wedi'u golygu o'r rhain ar ein gwefan.

# Sesiwn Un: Dewis eich ffocws

## Canlyniadau Sesiwn Un

- Bydd y plant a'r bobl ifanc yn gwybod am eich gwasanaeth
- Bydd y plant a'r bobl ifanc yn cydweithio i feddwl am ffocws i'r prosiect hwn

### Cyn cychwyn y sesiwn hon, mae angen:

- PENDERFYNU – Fel sefydliad, penderfynwch pa ran o'ch gwaith mae angen i chi ymgynghori â phlant a phobl ifanc yn ei chylch.
- DEWIS – Dewiswch ddau brif bwnc a thema yn y maes yma i ganolbwyntio arnyn nhw.
  Er enghraifft, os ydych chi'n gorff iechyd ac rydych chi'n penderfynu ymgynghori â phlant ynghylch newid eich gwasanaeth, efallai byddwch chi'n dewis canolbwyntio ar y ddau bwnc yma: yr ystafell aros; a sut mae gweithwyr proffesiynol yn cyflwyno'u hunain. Os ydych chi'n awdurdod lleol yn defnyddio'r cynllun yma i ymgynghori â phlant ynghylch eich gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol, gallech chi adolygu pa themâu sydd wedi cael eu codi gan blant yn ystod cynllunio person-ganolog mewn perthynas â'u Cynllun Datblygu Unigol. Bydd hyn yn eich helpu i ddewis meysydd y gellid eu gwella.
- DOD O HYD I'CH GRŴP – Meddyliwch faint o blant neu bobl ifanc yr hoffech chi weithio gyda nhw a'r ystod o brofiadau bydd arnyn nhw eu hangen. Rydyn ni'n argymell grŵp o 5-15. Nodwch un neu fwy o grwpiau o bobl ifanc i weithio gyda nhw, er enghraifft, grŵp ieuenctid neu grŵp cyfranogiad.
- GWAHODD - Esboniwch mewn brawddeg beth rydych chi'n ceisio'i wella a gwahoddwch y grŵp i fod yn rhan o helpu i wneud gwelliannau. Gallech chi wneud hyn trwy anfon fideo, llythyr, mynychu sesiwn, neu trwy weithiwr proffesiynol sy'n gweithio'n rheolaidd gyda'r grŵp.
- CYNLLUNIO – Bydd angen i chi ddeall anghenion y grŵp. Gofalwch fod gennych chi ddigon o gefnogaeth gan oedolion (i ymateb i anghenion unigol) yn ystod y sesiwn. Lluniwch unrhyw adnoddau angenrheidiol. Meddyliwch am linell amser eich sesiynau, gan gynnwys sesiwn 4 – pan fyddwch chi'n rhoi adborth i'r bobl ifanc ar beth rydych chi wedi'i wneud â'u syniadau.

### Cyflwyniad: Dod i adnabod y grŵp a chyflwyno eich gwasanaeth

- **Cyflwynwch** eich tîm, a chofiwch gynnwys: eich enw(au); i bwy rydych chi'n gweithio; beth mae eich sefydliad yn ei wneud. Dyma fideo yn dangos Jordan yn cyflwyno'i hunan ar ddechrau sesiwn.
- Esboniwch beth byddwch chi'n ei wneud heddiw ag **amserlen weledol.** Yn y fideo mae Jordan yn defnyddio amserlen weledol i gyflwyno'i sesiwn. Bydd angen i chithau greu eich un eich hun, a gallwch chi ddefnyddio'r templed yma i wneud hyn. Er enghriafft, heddiw rydyn ni'n mynd i: chwarae gêm enwau; gwrando a thynnu lluniau; pleidleisio; cyfri'r pleidleisiau; chwarae hoff gêm; gorffen. Gallwch chi arddangos eich amserlen weledol yn y stafell.

- **Chwaraewch** weithgaredd torri'r iâ i ddysgu enwau. Dyma ddau awgrym:
  1. Ffurfiwch gylch. Yn eich tro, bydd pob person (gan gynnwys yr oedolion) yn dweud eu henw eu hunain ac yn gwneud rhywbeth ar yr un pryd *"Jordan ydw i"* (e.e. clapio, neidio, chwifio, nodio pen). Mae angen i weddill y bobl yn y cylch ddweud *"Helô Jordan"* ac ailadrodd y weithred. Ewch o amgylch y cylch cyfan. Gallwch chi wneud hyn fwy nag unwaith.
  2. Eisteddwch i lawr a gofyn i bob person ddweud eu henw a'u hoff (liw/anifail/le). *"Jordan ydw i, a fy hoff le yw'r pwll nofio"*. Gallwch chi ailadrodd ac ategu beth mae'r bobl ifanc yn ei ddweud.

**NODYN:** Os ydych chi'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc sydd ag anabledd dysgu dwys a lluosog (PMLD) neu gyda phlant sy'n ddieiriau, er enghraifft rhai sydd ag Anhwylder Sbectrwm Awtistig (ASD) dieiriau, dylech anfon symbolau ymlaen llaw sy'n cynrychiol eich "hoff drafodaeth". Er enghraifft, os dewisoch chi anifeiliaid, gallech chi baratoi detholiad o anifeiliaid poblogaidd ymlaen llaw.

- Paratowch **ofod diogel**. Un ffordd o wneud hyn yw defnyddio tair hawl bwysig ar gyfer y sesiwn.
  *"Mae gan bawb ohonoch chi hawl i fod yn gyfartal – felly gallwch chi gymryd rhan yn eich ffordd eich hun"*
  *"Mae gan bawb ohonoch chi hawl i gael eich gwrando – felly gallwch chi ddisgwyl lleisiau caredig, a bydd pawb ohonon ni'n gwrando"*
  *"Mae gan bawb ohonoch chi hawl i gadw rhai pethau'n breifat – felly peidiwch â rhannu unrhyw beth dydych chi ddim eisiau ei rannu"*
  Nodyn: os bydd person ifanc yn rhannu rhywbeth rydych chi'n meddwl allai fod yn breifat yn y sesiwn, stopiwch nhw a dweud wrthyn nhw byddwch chi'n cael gair gyda nhw ar y diwedd. Gallwch chi ddefnyddio'r symbolau yma i'ch helpu i gyflwyno'r hawliau.

## Prif Weithgaredd: dewis ffocws ar gyfer y prosiect

- **Esboniwch** y bydd y grŵp yn canolbwyntio ar un pwnc fel rhan o'r prosiect yma. Byddwch chi'n pleidleisio fel grŵp i benderfynu arno fe.
- **Cyflwynwch** y ddau bwnc sydd gennych chi. Byddwch chi eisoes wedi gwirio gyda'r gweithiwr cyswllt bod y pwnc yn berthnasol i'r grŵp. E.e. *"Rydw i wedi dewis dau beth y byddech chi o bosib eisiau eu newid, sef: yr ystafell aros; sut mae'r [meddyg/nyrs/derbynnydd] yn siarad â chi."* Defnyddiwch ddarn A4 o bapur â llun arno i gynrychioli'r naill a'r llall o'r pynciau a'u harddangos.
- Esboniwch mai dyma eich syniadau chi, ond y bydd y grŵp o bosib am newid rhywbeth arall. Gallech chi gynnig rhai awgrymiadau. Rhowch **gerdyn syniad** (darn gwag o bapur) i bob person ifanc i dynnu llun neu ysgrifennu un peth bydden nhw'n hoffi ei newid am eich gwasanaeth. Gallan nhw greu un gyda'i gilydd os byddan nhw'n rhannu'r un syniad. Hefyd gall pobl ifanc gael cefnogaeth oedolyn neu berson ifanc arall i lenwi eu cerdyn syniad.
- **Arddangoswch** y cardiau syniad ar y wal/bwrdd/llawr gyda'r ddau syniad oedd gennych chi. Trafodwch y cyfan, ac os yw rhai ar yr un pwnc, rhowch nhw gyda'i gilydd.
- **Pleidleisiwch**. Gwahoddwch bob un o'r bobl ifanc i bleidleisio ar y syniad maen nhw am ganolbwyntio arno. Mae ganddyn nhw un bleidlais yr un. Gallech chi bleidleisio trwy godi dwylo neu trwy roi sticer i bob person ifanc, i'w lynu ar y llun maen nhw eisiau fwyaf.

**NODYN:** Bydd rhai pobl ifanc yn cael bod gwneud penderfyniad yn haws os oes rhywfaint o bellter rhwng y dewisiadau. Efallai byddwch chi am roi pob dewis mewn rhan wahanol o'r stafell.

## Cloi

- Cyfrifwch y pleidleisiau: esboniwch mai dyma'r pwnc byddwch chi'n ei newid.
- Esboniwch y byddwch yn archwilio'r pwnc hwn yn fanwl yn y sesiwn nesaf.
- Gwahoddwch y grŵp i ddysgu gêm neu weithgaredd maen nhw'n mwynhau ei chwarae i chi. Chwaraewch gyda nhw. Efallai byddwch chi wedi trafod neu drefnu gêm ymlaen llaw gyda'u gweithiwr cyswllt.
- Diolchwch i'r grŵp am eu hamser.

## Ar ôl y sesiwn:

- Nodwch ddewisiadau byrfyfyr y bobl ifanc yn ogystal â'r pwnc y byddwch chi'n canolbwyntio arno. Efallai byddwch chi am ddod yn ôl at y rhain.
- Gwiriwch gyda'r gweithiwr cyswllt/staff cefnogi i weld a oes angen i chi wneud unrhyw newidiadau i'ch adnoddau erbyn y tro nesaf.
- Defnyddiwch ein taflen ymarfer adfyfyriol i ystyried beth aeth yn dda, a beth oedd yn anodd i chi.

## Cynghorion:

- Efallai byddwch chi am wneud yn siŵr bod gennych chi un oedolyn i hwyluso'r sesiwn ac un arall i gymryd nodiadau.
- Os oes gennych chi gydsyniad delweddau ar gyfer unigolion yn eich grŵp, gall y nodiadau gynnwys ffotograffau neu fideos.
- Gall y rhain fod yn gymorth gweledol gwerthfawr pan fyddwch chi'n crynhoi'r sesiwn gyda'ch grŵp y tro nesaf.

## Sesiwn mewn stori

*Mae Jordan yn gweithio i Gomisiynydd Plant Cymru. Mae'r Comisiynydd Plant yn penderfynu ymgynghori â phlant ynghylch sut mae'r swyddfa'n rhoi gwybodaeth i bobl ifanc. Mae Jordan yn dewis canolbwyntio ar ddau faes cyfathrebu: y wefan ac ymweliadau ysgol. Mae Jordan yn dod o hyd i grŵp ieuenctid cynhwysol y bu'r swyddfa'n gweithio gyda nhw yn y gorffennol ac yn recordio fideo yn gwahodd y grŵp i leisio barn ar sut mae'r Comisiynydd yn dweud wrth blant am ei gwaith. Mae arweinydd y grŵp ieuenctid yn rhannu hyn gyda'r grŵp ac maen nhw'n penderfynu cymryd rhan.*
*Mae Jordan yn rhannu'r cynllun ar gyfer sesiwn un gydag arweinydd y grŵp. Mae arweinydd y grŵp ieuenctid yn meddwl byddai'r rhan fwyaf o'r gweithgareddau'n gweithio'n dda, ond mae'n awgrymu y byddai'n well cynnal y sesiwn ar ffurf dwy sesiwn* ***30 munud****, felly mae Jordan yn rhannu'r sesiwn yn ddwy ran dros ddwy wythnos. Mae Jordan yn rhoi ffurflen cydsyniad delweddau i arweinydd y grŵp ac mae'r bobl ifanc yn ei llanw cyn y sesiwn gyntaf, fel bod Jordan yn gallu tynnu lluniau a chreu fideo. Yn yr wythnos gyntaf mae Jordan yn rhoi'r cyflwyniad a rhan gyntaf y prif weithgaredd, ac yna mae'n rhoi'r 'cerdyn syniad' gwag i'r bobl ifanc ei lenwi gartref. Yn y sesiwn nesaf bydd y bobl ifanc yn cyflwyno'u cerdyn syniad, ac yna bydd y grŵp yn pleidleisio ac yn chwarae gêm i gloi.*
*Mae Jordan yn cychwyn y ddwy sesiwn â'r un gweithgaredd torri'r iâ: gofyn i bawb yn y stafell nodi eu hoff liw. Pan yw Jordan yn cofio'r rhain yn yr ail sesiwn, mae hynny'n creu argraff ar y bobl ifanc. Mae Jordan yn gwisgo'i henw ei hun ar label enw, gyda llythrennau coch: ei hoff liw. Mae Jordan yn cynnig dau syniad i ganolbwyntio arnyn nhw (y wefan ac ymweliadau ysgol) ac mae'r bobl ifanc yn cyflwyno syniadau newydd, gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol a sioeau teledu. Mae Jordan yn arddangos yr holl gardiau syniad trwy eu rhoi ar fwrdd gyda'i chardiau ei hun. Mae'r grŵp yn pleidleisio dros sioe deledu. Mae Jordan yn esbonio efallai na fydd modd creu sioe deledu, ond y gallen nhw ganolbwyntio ar fideos mae'r Comisiynydd yn eu defnyddio ar YouTube a'r wefan. Mae'r bobl ifanc yn penderfynu gwneud hyn, ac mae Jordan yn esbonio y byddan nhw'n canolbwyntio tro nesa ar sut mae'r Comisiynydd yn defnyddio fideos i gyfathrebu. Yna mae'r bobl ifanc yn chwarae cerfluniau cerddorol gyda Jordan i ddod â'r sesiwn i ben.*
*Ar ôl y sesiwn mae Jordan yn rhoi gwybod i'r Comisiynydd bod y bobl ifanc am ganolbwyntio ar y fideos roedd y swyddfa yn eu creu a sut gallen nhw gael eu gwella. Bydd yr wybodaeth yma'n cael ei rhannu ar draws y sefydliad fel bod yr holl staff yn gwybod i ddisgwyl hyn. Mae Jordan yn gofyn i arweinydd y grŵp ieuenctid am adborth ynghylch y sesiwn i lywio'r cynllunio ar gyfer y tro nesaf, ac o ganlyniad mae Jordan yn penderfynu defnyddio mwy o gymhorthion gweledol, gan gynnwys amserlen weledol.*

# Sesiwn 2: Archwilio'r thema

## Canlyniadau sesiwn 2:

- Bydd y plant a'r bobl ifanc yn archwilio'r thema maen nhw wedi'i dewis
- Bydd gennych chi well dealltwriaeth o flaenoriaethau a phrofiadau'r bobl ifanc yn y grŵp

## Cyn i chi gychwyn y sesiwn hon, bydd angen:

- PENDERFYNU – Fel sefydliad, penderfynwch beth mae angen i chi wybod.
- DEWIS – dewiswch un prif faes yr hoffech chi wybod amdano a dau faes ychwanegol y gallech chi eu harchwilio os bydd digon o amser.
- CYNLLUNIO – Cynlluniwch eich cwestiynau agored a chaeedig.
  Edrychwch eto ar eich taflen ymarfer adfyfyriol o'r sesiwn ddiwethaf i'ch atgoffa eich hun am y ffordd orau o gefnogi eich grŵp.
  Lluniwch linell amser newydd i adlewyrchu'r gweithgareddau byddwch chi'n eu cwmpasu yn sesiwn 2.

## Cyflwyniad: Cyfarch y bobl ifanc a chrynhoi'r sesiwn ddiwethaf

- **Cyflwynwch eich hunan** – defnyddiwch yr un dechneg â'r tro diwethaf i atgoffa'r plant a'r bobl ifanc pwy ydych chi.
- **Chwaraewch** gêm torri'r iâ – gall defnyddio'r un gweithgaredd â'r tro diwethaf fod yn fuddiol. Gallwch chi bob amser ychwanegu gêm arall os byddwch chi'n teimlo'n gyfforddus.
  Bydd ailadrodd yr un gweithgaredd yn eich helpu i feithrin perthynas gyda'r plant a'r bobl ifanc. Byddwch chi'n gallu dangos iddyn nhw eich bod wedi cofio eu henwau a'u hoff bethau.
- **Crynhoi** – Atgoffwch y grŵp am y sesiwn ddiwethaf, a'r thema y gwnaethon nhw ei dewis. Defnyddiwch gymhorthion gweledol i wneud hyn. Gallech chi wneud y canlynol:
  1. Defnyddio'r lluniau/pleidleisiau o'r sesiwn ddiwethaf a gofyn cwestiynau i'r grŵp fel "Allwch chi gofio beth yw hyn?", "Allwch chi gofio trafod hyn yn ein sesiwn ddiwetha?"
  2. Os buoch chi'n tynnu lluniau/creu fideos o'r sesiwn flaenorol, gallech chi greu llinell amser weledol o'r tasgau bu'r grŵp yn cymryd rhan ynddyn nhw a'u defnyddio i grynhoi.

## Y Prif Weithgaredd: Archwilio'r thema

*Yn yr adran hon rydych chi'n cefnogi'r grŵp i archwilio'r thema a ddewiswyd. Rydych am gael gwybod beth maen nhw'n ei hoffi neu beidio am y thema, a rhoi cyfleoedd iddyn nhw rannu eu profiad. Efallai byddwch chi am ddefnyddio detholiad o'r dulliau isod i'ch helpu gyda hyn.*

### Enghraifft o gyflwyniad i'r gweithgareddau:

"Yn y sesiwn ddiwetha, fe benderfynon ni ganolbwyntio ar y stafell aros yn yr ysbyty. Heddiw, rydw i eisiau gwybod beth yw eich barn am ein stafell aros ni. Byddwn ni'n gwneud gweithgaredd(au) i'ch helpu i feddwl am eich barn."

## Gweithgareddau (Dulliau):

### Pleidleisio

Os oes atebion *cytuno/anghytuno* neu *ydy/nac ydy* clir i'r thema a ddewiswyd gan y grŵp, gallech chi ragbennu cwestiynau ar gyfer y grŵp.

Er enghraifft, petaech chi'n canolbwyntio ar stafell aros, gallech chi ddarllen gosodiadau fel *"Rwy'n credu bod y stafell aros yn rhy swnllyd"* neu *"Rydw i'n meddwl bod y stafell aros yn hyfryd"* a gofyn i'r grŵp gytuno neu anghytuno. Gallech chi ddefnyddio'r dulliau canlynol i gefnogi gosodiadau ydy/nac ydy neu cytuno/anghytuno.

**NODYN:** Bydd rhai pobl ifanc yn cael bod gwneud penderfyniad yn haws os oes rhywfaint o bellter rhwng y dewisiadau. Efallai byddwch chi am roi pob dewis mewn rhan wahanol o'r stafell.

### Pleidleisio electronig

Mae modd defnyddio gwefannau fel Kahoot i gefnogi'r grŵp i rannu eu barn.

Wrth greu Kahoot, gofalwch eich bod yn caniatáu digon o amser i'r bobl ifanc ateb trwy ddewis yr uchafswm amser sydd ar gael.

Modelwch sut mae Kahoot yn gweithio trwy gwblhau pob cam o'r broses "mewngofnodi" gyda'ch gilydd.

Dechreuwch â chwestiwn syml amdanoch chi neu'r grŵp i sicrhau bod y bobl ifanc yn deall sut mae defnyddio'r swyddogaeth Kahoot.

Darllenwch y cwestiynau'n uchel i'r grŵp. Ailadroddwch y cwestiwn gynifer o weithiau ag sy'n angenrheidiol.

### Pleidleisio personol

Mae nifer o weithgareddau pleidleisio personol gallech chi eu defnyddio i gasglu barn y bobl ifanc:

**Pleidleisio â dotiau** – dilynwch y cyfarwyddiadau yn Sesiwn 1.

### Pleidlais gorfforol

Os yw hyn i weithio, bydd angen lle arnoch chi i symud o gwmpas. Hefyd bydd angen arwyddion yn y ddau ben i'r stafell, p'un ai arwyddion Cytuno/Anghytuno neu bawd i fyny/bawd i lawr.

Darllenwch y gosodiadau a gofynnwch i'r grŵp symud at yr arwydd sy'n dangos eu hateb.

Gallech chi siarad am faint o bobl sy'n pleidleisio o blaid/yn erbyn pob gosodiad a gofyn cwestiynau agored i archwilio'r pwnc yn fanylach.

## Mynegi barn

Mae'r gweithgareddau dilynol yn canolbwyntio ar wahanol ffyrdd o alluogi pobl ifanc i fynegi eu barn. Efallai byddwch chi am ofyn i'r bobl ifanc weithio mewn grwpiau llai a mynd o amgylch y stafell i weithio gyda nhw fesul un.

Bydd angen aelod ychwanegol o staff arnoch chi i gymryd nodiadau wrth i chi hwyluso'r trafodaethau.

### Gofyn (gweithgaredd geiriol)

Gofynnwch gwestiwn agored i'r grŵp a gofynnwch iddyn nhw rannu eu hateb gyda chi. Gallan nhw wneud hyn un ar y tro neu mewn grwpiau llai. Rhowch amser i'r grŵp feddwl cyn gofyn iddyn nhw siarad yn uchel. Gallech chi hwyluso'r trafodaethau trwy ddefnyddio barn pobl ifanc fel gosodiadau. Er enghraifft, gallech chi ddweud "Mae Sam yn meddwl bod y stafell aros yn rhy swnllyd. Rhowch eich llaw i fyny os ydych chi'n cytuno". Yna gallech chi ofyn i bobl ifanc egluro pam maen nhw'n cytuno.

Caniatewch amser ar ddiwedd y gweithgaredd i'r bobl ifanc rannu unrhyw safbwyntiau eraill sydd ganddyn nhw am y pwnc. Gallech chi ofyn "Oes gan unrhyw un rywbeth arall hoffen nhw ddweud?"

### Lluniau (gyda a heb eiriau)

Dewiswch luniau sy'n gysylltiedig â'ch pwnc ymlaen llaw. Er enghraifft, os oeddech chi'n canolbwyntio ar stafell arall, efallai byddwch chi am dynnu lluniau o agweddau unigol ar eich stafell aros (y goleuadau, y cadeiriau, y llawr, y waliau, arwyddion etc).

Dangoswch y lluniau fesul un a gofyn i'r bobl ifanc ydyn nhw'n hoffi'r eitem/ardal benodol dan sylw. Arhoswch am ymatebion gan y bobl ifanc (bydd gweithwyr cyswllt yn gallu eich cefnogi i roi ciwiau dieiriau). Dechreuwch "restr" ar fwrdd, fel bod pawb yn gallu gweld yr atebion. Os ydych chi'n gweithio gyda pherson ifanc dieiriau, efallai byddwch chi am wneud y gweithgaredd yma ar lefel un-i-un a bwydo eu meddyliau yn ôl i'r grŵp ar ffurf gwaith gweledol.

**NODYN:** Yn achos plant a phobl ifanc sydd â PMLD neu blant dieiriau, efallai byddwch am anfon symbolau ymlaen cyn y sesiwn er mwyn i weithwyr cyswllt fedru paratoi fframiau E-Tran neu systemau eraill i gefnogi'r bobl ifanc. Dylech chi hefyd baratoi cwestiynau ychwanegol i'w cefnogi i roi eu barn. Er enghraifft: "Ydych chi'n hoffi'r stafell?" (arhoswch am ateb ydw/nac ydw). Os nac ydw yw'r ateb, gofynnwch gwestiwn arall fel: "Ydy'r stafell yn rhy llachar?" Bydd hynny'n eich helpu i gasglu barn y bobl ifanc.

## Gweithgaredd seiliedig ar Gelf

### Gweithgaredd "Delfryd"

Gallech chi ddefnyddio'r gweithgaredd yma os ydych chi'n trafod gofod/gwasanaeth neu berson (er enghraifft gweithiwr cymdeithasol/athro/meddyg).

Gofynnwch i'r bobl ifanc feddwl am eu gofod/gwasanaeth/person delfrydol. Defnyddiwch iaith fel hyn:

"Tasech chi'n gallu tynnu llun o'ch stafell aros ddelfrydol, sut byddai'n edrych?"

"Beth fyddai ar y waliau?" "Sut byddai'n swnio?" "Fyddai yna gerddoriaeth?"

Os ydych chi'n siarad am berson, efallai byddwch chi am ddefnyddio iaith fel:

"Sut bydden nhw'n ymddwyn?" "Sut bydden nhw'n swnio?"

Unwaith mae'r bobl ifanc wedi gorffen eu darlun delfrydol, gofynnwch iddyn nhw roi adborth i'r grŵp.

Gallwch chi ddefnyddio syniadau yn eu lluniau i ofyn cwestiynau:

"Sam, yn dy stafell aros ddelfrydol di, rwyt ti wedi tynnu llun llawer o oleuadau. Wyt ti'n hoffi stafelloedd llachar?"

Os yw'r bobl ifanc wedi bod yn gweithio mewn grwpiau llai, gofalwch eu bod yn bwydo'u syniadau'n ôl i'r prif grŵp.

NODYN: Wrth i chi gynnal y gweithgaredd a'r adborth efallai bydd yn ddefnyddiol creu rhestr o'r pethau mae pobl ifanc yn eu hoffi a'r pethau dydyn nhw ddim yn eu hoffi am eu thema. Gallech chi ddefnyddio'r rhestr yma i'ch helpu wrth i chi gloi'r adran.

## Cloi

- Ewch yn ôl dros y meddyliau y bu'r bobl ifanc yn eu rhannu. Gallech chi ddefnyddio'r rhestr hoffi/ddim yn hoffi o ddiwedd y brif adran. Gallech chi ddefnyddio'r cymhorthion gweledol o'r gweithgaredd i roi adborth i'r grŵp cyfan
- Esboniwch y byddwch yn edrych ar bethau maen nhw'n eu hoffi/dydyn nhw ddim yn eu hoffi am y gwasanaeth/sefydliad yn y sesiwn nesa, ac y byddwch chi'n meddwl am syniadau i wella pethau.
- Diolchwch i'r bobl ifanc am eu hamser.
- Gorffennwch trwy chwarae gêm, o bosib ailadrodd y gêm o'r sesiwn ddiwetha.

## Ar ôl y sesiwn:

- Casglwch waith y bobl ifanc a'i gofnodi.
- Gwiriwch gyda'r gweithiwr cyswllt/staff cefnogi – oes angen i chi addasu'r adnoddau ar gyfer y sesiwn nesa?
- Defnyddiwch ein taflen ymarfer adfyfyriol i werthuso eich sesiwn.

## Cynghorion:

- Efallai byddwch chi am gynnwys tasg i'w gwneud gartref ar ôl y sesiwn hon. Byddai hyn yn arbennig o ddefnyddiol os yw'r thema'n benodol iawn, er enghraifft, os yw'r grŵp yn meddwl am sut i wella stafell aros, neu stafell ddosbarth. Gallech chi ofyn i'r bobl ifanc feddwl am enghreifftiau o leoedd maen nhw'n hoffi bod ynddynt, a dweud wrthych chi amdanyn nhw y tro nesa. Gallen nhw ddod â llun hefyd.
- Gallech chi wneud hyn ar gyfer themâu eraill hefyd: e.e. os gwefannau yw'r thema, allan nhw ddweud wrthych chi am wefan maen nhw'n ei chael yn ddefnyddiol?

## Sesiwn mewn stori

*Cyfyngodd y sesiwn ddiwethaf ffocws y prosiect i ystyried sut gall y Comisiynydd Plant wella fideos i blant, fel eu bod yn gynhwysol ac yn cyfathrebu â phawb. I gynllunio ar gyfer y sesiwn hon, mae Jordan yn dewis tri fideo o Sianel YouTube y Comisiynydd i ddarganfod beth mae'r grŵp yn ei hoffi neu ddim yn ei hoffi amdanyn nhw, ac yn creu cwestiynau agored a chaeedig i'w gofyn am bob un. Mae Jordan yn cyrraedd y sesiwn yn gwisgo'r un dillad â'r tro diwetha, ac â'r un sticer enw wedi'i sgrifennu yn yr un lliw. Ar ddechrau'r sesiwn mae Jordan yn crynhoi'r cyflwyniad, ond yn datblygu'r gweithgaredd torri'r iâ. Y tro diwetha, sylwodd Jordan fod rhai o'r bobl ifanc yn defnyddio Makaton a BSL, felly y tro yma mae Jordan yn cyflwyno ei henw trwy ei sillafu â BSL. Mae Jordan yn gwahodd y bobl ifanc i wneud yr un peth os ydyn nhw'n dymuno, ac mae Jordan yn ailadrodd ar eu hôl nhw. Mae'r cyfranogwyr sydd ddim yn defnyddio iaith arwyddion yn cael gwahoddiad i wneud rhyw weithred i fynd gyda'u henw, ac mae Jordan yn ailadrodd hynny. Yna mae Jordan yn defnyddio amserlen weledol i esbonio beth fydd yn digwydd yn y sesiwn. Mae'n cynnwys lluniau ar gyfer y pedwar gweithgaredd canlynol: gwylio fideos; ateb cwestiynau; creu rhestr; chwarae gêm.*

*Ar gyfer y prif weithgaredd mae Jordan yn rhoi matiau papur YDW/IE a NAC YDW/NA yn y stafell. Yn gynta, mae hi'n dangos fideo 1 ac yn gofyn rhai cwestiynau caeedig, gan gynnwys: Ydych chi'n deall y geiriau yn y fideo? Ydych chi'n meddwl byddech chi'n ei wylio i'r diwedd? Fyddech chi'n ei argymell i ffrind? Roedd rhai o'r bobl ifanc yn cael trafferth penderfynu, felly mae Jordan yn creu mat EFALLAI hefyd. Wrth i'r bobl ifanc symud i'r mannau maen nhw wedi'u dewis, mae Jordan yn gofyn rhai cwestiynau penagored, gan gynnwys: beth ydych chi'n ei hoffi am y fideo? Beth dydych chi ddim yn ei hoffi? Mae arweinydd y grŵp ieuenctid yn defnyddio'r atebion i greu rhestr o HOFF BETHAU A CHAS BETHAU ar ddarn mawr o bapur fflipsiart.*

*Mae Jordan yn gwneud hyn ar gyfer dau o'r fideos, ac mae hynny'n cynhyrchu llawer o syniadau. Yn ystod yr ail fideo, mae Jordan yn gwahodd y bobl ifanc i eistedd nesaf at y mat pan fyddan nhw wedi penderfynu eu hateb, ac mae Jordan hefyd yn eistedd lawr i siarad â nhw. Mae hynny'n fwy cyfforddus na sefyll i fyny. Mae Jordan yn penderfynu peidio â dangos y trydydd fideo, oherwydd bod ganddyn nhw lawer o wybodaeth i weithio arni eisoes. Mae Jordan yn dangos i'r grŵp eu bod nhw ar lun tri o'r amserlen weledol, ac mae hi'n defnyddio'r rhestr fflipsiart i grynhoi hoff a chas bethau'r grŵp.  Mae Jordan yn esbonio wrth y grŵp y gallan nhw wneud tasg gartref os byddan nhw'n dymuno – nod y dasg hon yw cael hyd i fideo sy'n ddefnyddiol yn eu barn nhw. Mae Jordan yn rhoi taflen tasg gartref i bob person ifanc, gyda'r dasg wedi'i nodi arni, gan ddefnyddio symbolau i gefnogi dealltwriaeth.*

*Mae Jordan yn hysbysu'r grŵp ei bod hi'n bryd symud i lun 4 ar yr amserlen weledol a chwarae gêm. Fel y tro diwethaf, mae'r bobl ifanc yn chwarae cerfluniau cerddorol gyda Jordan i gloi'r sesiwn. Maen nhw'n defnyddio'r un gerddoriaeth â'r tro diwethaf.*

# Sesiwn 3: Atebion

## Canlyniadau sesiwn 3:

- Bydd y bobl ifanc yn gweithio mewn grŵp i gynnig ffyrdd i'ch sefydliad wella
- Bydd y bobl ifanc yn cael eu gwrando
- Bydd gennych chi syniadau i fynd â nhw nôl i'ch sefydliad

## Cyn i chi gychwyn ar y sesiwn hon, bydd angen:

- DEWIS – Meddyliwch am beth yw atebion eich gwasanaeth/sefydliad i'r materion a godwyd gan y bobl ifanc (gan ddefnyddio'u cas bethau o'r sesiwn flaenorol)
- CYNLLUNIO – Paratowch hoff a chas bethau'r bobl ifanc ar ffurf cymorth gweledol i'w rannu gyda'r bobl ifanc. Gallech chi ddefnyddio ffotograffau/lluniau.
  Crewch linell amser newydd i adlewyrchu'r gweithgareddau byddwch chi'n eu cwmpasu yn sesiwn 3.

## Cyflwyniad: Cyfarch y bobl ifanc a chrynhoi'r gwaith

- **Cyflwynwch eich hunan** – defnyddiwch yr un dechneg â'r tro diwethaf i atgoffa'r plant a'r bobl ifanc pwy ydych chi.
- **Chwaraewch** gêm torri'r iâ – gall defnyddio'r un gweithgaredd â'r tro diwethaf fod yn fuddiol. Gallwch chi bob amser ychwanegu gêm arall os byddwch chi'n teimlo'n gyfforddus.
  Bydd ailadrodd yr un gweithgaredd yn eich helpu i feithrin perthynas gyda'r plant a'r bobl ifanc. Byddwch chi'n gallu dangos iddyn nhw eich bod wedi cofio eu henwau a'u hoff bethau.
- **Crynhoi** – Ewch yn ôl dros hoff a chas bethau'r bobl ifanc o'r sesiwn ddiwethaf, gan ddefnyddio eich cymorth gweledol. Gofynnwch gwestiynau i gefnogi'r bobl ifanc i grynhoi eu gwaith.

## Prif Weithgaredd: bydd y bobl ifanc yn meddwl am sut gall eich sefydliad wella

- **Tasg gwaith cartref –** Os gwnaethoch chi ofyn i'r bobl ifanc wneud tasg gwaith cartref, rhowch gyfle iddyn nhw gyflwyno'u syniadau.
- **Cyflwynwch eich gweithgaredd –** Dewiswch weithgaredd sy'n addas i'r math o destun rydych chi'n archwilio.

## Cyfuniad o luniau / byrddau hwyliau / seinfwrdd

Gallech chi baratoi clytwaith/bwrdd hwyliau yn adlewyrchu'r pethau/lliwiau a'r syniadau y dywedodd y bobl ifanc eu bod nhw'n eu hoffi. Gallech chi ofyn iddyn nhw ddewis lluniau/syniadau o gylchgronau a gwefannau i ychwanegu at y bwrdd hwyliau a defnyddio hynny i drafod.

Os ydych chi'n canolbwyntio ar ofod corfforol, gallech chi ddod ag amrywiaeth o seiniau i'w chwarae i'r bobl ifanc, i weld p'un yw eu ffefryn.

**NODYN:** Gallech chi hefyd roi eitemau i'w harchwilio trwy gyffwrdd i'r bobl ifanc. Er enghraifft, gallech chi fynd â defnydd iddyn nhw deimlo a dewis (fel carpedi) ac opsiynau lliwiau paent iddyn nhw ddewis ohonynt.

## Defnyddio eich atebion

Gallech chi droi atebion eich sefydliad/gwasanaeth yn gwestiynau cytuno/anghytuno. Defnyddiwch yr un technegau ag yn sesiwn 2 i annog sgwrsio a thrafodaeth.

## Syniadau'r bobl ifanc

Gan ddefnyddio sgwrs neu waith celf gallech chi ofyn i'r bobl ifanc gynnig atebion ar gyfer materion/pethau dydyn nhw ddim yn eu hoffi am eich gwasanaeth/sefydliad.

Gofalwch eich bod yn trafod eu syniadau gyda nhw i sicrhau bod modd i'ch gwasanaeth/sefydliad eu cyflawni.

Defnyddiwch y gweithgareddau uchod i ddatblygu eich meddyliau. Ewch yn ôl at y gweithgaredd pleidleisio yn sesiwn un i helpu'r grŵp i ddewis eu 3 hoff ateb/argymhelliad ar gyfer eich gwasanaeth/sefydliad.

## Cloi: Addunedu a'r camau nesaf

- **Crynhowch** y 3 hoff ateb/argymhelliad a ddewiswyd gan y bobl ifanc
- **Gwnewch addunedd** i'r bobl ifanc y byddwch chi'n rhannu eu 3 hoff ateb/argymhelliad gyda'ch gwasanaeth/sefydliad
- **Esboniwch** y terfynau amser ar gyfer adborth. Er enghraifft: *"Diolch yn fawr iawn i chi am eich syniadau, sy'n ddefnyddiol iawn. Mae llawer o bethau i ni feddwl amdanynt a'u gwneud/ Bydd angen 3 mis arnaf fi i wneud hyn, felly bydda i'n dod nôl i ymweld â chi eto yn XX i rannu beth sydd wedi newid."*

## Ar ôl y sesiwn:

- Gofalwch eich bod yn casglu holl waith y bobl ifanc ac yn ei gofnodi
- Gwiriwch gyda'r gweithiwr cyswllt/staff cefnogi – sut a phryd byddwch chi'n cyflwyno'r adborth?
- Defnyddiwch ein taflen ymarfer adfyfyriol i werthuso eich sesiwn

## Cynghorion:

- Peidiwch ag ymrwymo eich sefydliad i wneud mwy nag sy'n bosibl
- Byddwch yn onest os nad oes modd i'ch sefydliad gyflawni rhywbeth

- Rhowch ddyddiad i'r bobl ifanc ar gyfer y sesiwn nesaf

## Sesiwn mewn stori

*Cyn y sesiwn mae Jordan yn dod o hyd i ddwy enghraifft o fideos gan sefydliadau eraill sydd fel petaen nhw'n cyfateb i'r pethau y dywedodd y bobl ifanc eu bod nhw'n eu hoffi yn y sesiwn ddiwethaf. Mae Jordan hefyd yn creu taflen 'ADDUNEDU' A3 ac yn casglu offer crefft – sticeri, llathr, glud a pheniau aur.*

*Mae Jordan yn gwisgo'r un dillad a'r un bathodyn enw â'r tro diwethaf, ond mae ei gwallt wedi newid ers iddi weld y grŵp ddiwethaf. Ar ddechrau'r sesiwn, mae Jordan yn crynhoi'r cyflwyniad ac yn defnyddio'r un gweithgaredd torri'r iâ â'r tro diwethaf, gan ddefnyddio Makaton / BSL a gwahanol symudiadau, a phan fydd Jordan yn dweud ei henw, mae'n esbonio pam mae ei gwallt yn edrych yn wahanol. Mae Jordan yn defnyddio amserlen weledol i esbonio beth fydd yn digwydd yn y sesiwn, ac mae'n cynnwys lluniau ar gyfer y pedwar gweithgaredd canlynol: dweud wrthyf fi am eich hoff fideos; dewis tri awgrym gwych; gwneud adduned; chwarae gêm.*

*Mae Jordan yn gwahodd y bobl ifanc i ddweud wrth y grŵp am y fideos roedden nhw'n eu hoffi. Nid pawb o'r bobl ifanc sydd wedi gwneud y dasg gartref, ac mae Jordan yn eu sicrhau bod hynny'n iawn, ac yn esbonio mai rhywbeth dewisol oedd e. Mae un person ifanc yn disgrifio animeiddiad a gafodd ei ddefnyddio ar gyfer llinell gynghori. Mae Jordan yn dod o hyd i'r fideo ar-lein ac yn ei ddangos i'r grŵp, gan ofyn iddyn nhw beth maen nhw'n ei hoffi amdano. Oherwydd eu bod nhw'n edrych ar y fideo yma, does dim angen i Jordan ddefnyddio un o'r enghreifftiau roedd hi wedi dod o hyd iddyn nhw cyn y sesiwn.*

*Mae Jordan yn gofyn i'r grŵp weithio fesul dau/dri. Mae Jordan yn gofyn i bob grŵp feddwl am 2 neu 3 awgrym gwych ar gyfer creu fideo da. Mae Jordan yn rhoi iPad i bob grŵp ac yn gofyn iddyn nhw gyflwyno'u cynghorion gorau a'i ffilmio. Mae'r oedolion yn y stafell yn cefnogi'r grwpiau i wneud hyn. Mae pob grŵp yn dangos eu fideo. Mae pawb yn clapio ar ôl pob grŵp, ac mae Jordan yn canmol pob grŵp am eu ffilm ac yn gwneud rhestr o'r holl gynghorion gwych.*

*Mae Jordan yn gwahodd pob person ifanc i roi sticer seren wrth yr awgrym maen nhw'n meddwl sy bwysicaf yn eu rhestr, gan ddefnyddio'r dechneg bleidleisio o'r sesiwn gyntaf. Mae Jordan yn nodi'r cynghorion gwych ar ei thaflen 'ADDUNEDU', ac yn dewis pedwar oherwydd eu bod wedi cael nifer cyfartal o bleidleisiau. Yna mae'r daflen addunedu'n darllen fel hyn, 'Byddwn ni'n creu fideos sy'n: siarad yn araf; defnyddio arwyddion/Makaton; cynnwys jôcs; cynnwys pobl ifanc.' Mae Jordan yn gwahodd y grŵp i ddefnyddio'r offer crefft i addurno'r adduned ac yn esbonio y bydd hi'n ei harddangos ar y wal yn ei sefydliad. Mae Jordan yn tynnu llun ohoni i'r grŵp.*

*Mae Jordan yn esbonio y bydd hi'n gweld y grŵp ymhen mis, ac erbyn hynny y bydd wedi creu 2 fideo newydd i'w dangos iddyn nhw.*

*Does dim amser i chwarae'r gêm yn y sesiwn yma, felly mae Jordan yn defnyddio'r amserlen weledol ac yn croesi'r gêm allan i esbonio mai dyma ddiwedd y sesiwn. I gloi'r gweithgaredd mae'r grŵp cyfan yn gweiddi hwrê ac yn clapio am y fideos mae'r bobl ifanc wedi'u creu.*

# Sesiwn Pedwar: Fe Ddwedsoch Chi / Fe Wnaethon Ni a Dathlu

## Canlyniadau Sesiwn Pedwar

- Mae'r plant a'r bobl ifanc yn gwybod sut mae eu barn a'u profiadau wedi dylanwadu ar newid;
- Mae cyfranogiad y plant a'r bobl ifanc yn cael ei gydnabod a'i ddathlu.

## Cyn i chi gychwyn y sesiwn hon, mae angen:

- PENDERFYNU – gyda'ch sefydliad, penderfynwch pa newidiadau byddwch chi'n eu datblygu a sut; gofalwch eich bod yn gallu cychwyn hyn cyn mynd yn ôl at y grŵp.
- GWEITHREDU- dechreuwch wneud y newidiadau. Yn ddelfrydol dylech chi gwblhau hyn cyn cwrdd â'r grŵp ar gyfer sesiwn 4. Cofiwch eich bod yn gallu cynllunio sesiwn 4 beth amser ar ôl sesiwn 3 i roi digon o amser i'ch sefydliad.
- CYNLLUNIO – Sut byddwch chi'n cyflwyno'r newidiadau i'r grŵp? Oes yna luniau neu gymhorthion gweledol gallwch chi eu defnyddio? Fyddwch chi'n dangos fideo iddyn nhw neu'n eu gwahodd ar ymweliad? Sut byddwch chi'n esbonio pam na wnaethoch chi ddatblygu rhai o'u syniadau – beth oedd eich rheswm? Hefyd gallech chi ddefnyddio'r sesiwn hon i ailgychwyn y cylch ar thema wahanol – a mynd yn ôl i sesiwn un i'ch helpu i gynllunio hynny.

## Cyflwyniad: crynhoi pwy ydych chi a chyflwyno beth byddwch chi'n ei wneud heddiw

- **Cyflwynwch** eich tîm yn yr un ffordd ag o'r blaen. Mae'n ddefnyddiol cadw at yr un fformat, yn enwedig os oes peth amser wedi mynd heibio rhwng sesiynau 3 a 4.
- Esboniwch beth rydych chi'n mynd i'w wneud heddiw, gan ddefnyddio **amserlen weledol.**
- **Chwaraewch** gêm torri'r iâ. Gallwch chi ddefnyddio'r un un neu roi cynnig ar un newydd.
- Paratowch **ofod diogel** fel gwnaethoch chi o'r blaen.

## Y Prif Weithgaredd: Rhoi adborth ar eich newidiadau

- Crynhowch eich prosiect. Esboniwch y pwnc gafodd ei ddewis gan y bobl ifanc, eu prif hoff a chas bethau, a'u hawgrymiadau ar gyfer gwella. Os buoch chi'n tynnu lluniau neu fideos ar hyd y prosiect bydd y rhain yn ddefnyddiol. Hefyd gallwch chi gadw adnoddau y buoch chi'n eu defnyddio, e.e. y cardiau syniadau, papur fflipsiart, a'u harddangos yn yr ardal dan sylw. Gallech chi fynd ar 'daith oriel' a cherdded o amgylch arddangosfa o luniau ac adnoddau a roddwyd ar y wal, gan eu trafod, a gofyn cwestiynau i'r grŵp am bob un i brocio'r cof.
- Amlygwch brif awgrymiadau'r grŵp ar gyfer newid. Gallwch chi wneud hyn trwy baratoi rhestr syml fel hyn,
  *Fe ddwedsoch chi… (e.e. bod y golau'n rhy llachar yn y stafell aros/bod dim byd i'w wneud/byddech chi'n hoffi gêmau cyfrifiadur/byddech chi'n hoffi cadeiriau cyfforddus/byddech chi'n hoffi ffenest a golygfa braf)*
- Esboniwch sut gwnaethoch chi weithredu ar sail y syniadau. Gallwch chi wneud hyn trwy baratoi rhestr syml arall ochr yn ochr â'r rhestr 'Fe ddwedsoch chi', fel hyn,
  *Fe wnaethon ni… (e.e. fe roeson ni lampau a golau meddal yn y stafell, ac rydyn ni'n cadw'r golau mawr i ffwrdd / mae gennym ni flwch o deganau synhwyraidd a phosau ac rydyn ni'n rhoi comigau a llyfrau ar y*

*byrddau/rydyn ni wedi prynu clustogau i'r cadeiriau/rydyn ni wedi prynu planhigion a lluniau o olygfeydd hardd yng Nghymru)* Defnyddiwch luniau a chymhorthion gweledol lle gallwch chi.

- Esboniwch unrhyw syniadau rydych chi wedi methu â'u gweithredu a pham (e.e. rhy ddrud/ddim yn bosib), ond lle gallwch chi, dywedwch beth rydych chi wedi'i wneud yn lle.
- Gwahoddwch y grŵp i roi barn ar eich newidiadau.

## Cloi: dathlu

- **Esboniwch** sut byddwch chi'n dathlu ac yn hyrwyddo'r gwaith mae'r grŵp wedi'i wneud.
- **Syniadau:**
    - gallech chi greu fideo neu dudalen ar y we yn esbonio'r prosiect (gyda lluniau o'r adnoddau rydych chi wedi'u defnyddio);
    - gallech chi roi hysbysfwrdd neu boster sy'n arddangos y prosiect mewn man gweladwy yn eich gwasanaeth;
    - gallech chi gynnwys gwybodaeth am y prosiect yn eich cylchlythyr a'ch cyfathrebu;
    - gallech chi ysgrifennu at ysgolion/leoliadau/deuluoedd pob un o'r bobl ifanc i ddiolch iddyn nhw am eu cyfranogiad ac esbonio'r newid maen nhw wedi'i wneud;
    - gallech chi roi tystysgrif i bob person ifanc am gymryd rhan;
    - gallech chi gynnal digwyddiad lansio yng ngofal y bobl ifanc, gyda chynrychiolwyr o bob rhan o'ch sefydliad;
    - gallech chi gynnwys y gwaith yma yn eich adroddiad blynyddol neu mewn adroddiadau a gwerthusiadau eraill am eich gwasanaeth.
- **Gofynnwch** i'r grŵp am eu syniadau eu hunain ynghylch sut i ddathlu'r newidiadau maen nhw wedi'u gwneud.
- **Diolchwch** i'r bobl ifanc am eu holl syniadau a'u gwaith caled.

## Ar ôl y sesiwn:

- Gofalwch eich bod yn datblygu ffyrdd o ddathlu'r newidiadau a gyflawnwyd gan y bobl ifanc mor eang â phosib ar draws eich gwasanaeth a'ch defnyddwyr gwasanaeth.
- Defnyddiwch ein taflen ymarfer adfyfyriol i ystyried beth weithiodd yn dda a beth oedd yn anodd i chi am y prosiect cyfan. Pa newidiadau byddech chi'n eu gwneud y tro nesa?
- Ystyriwch pa brosiectau a newidiadau eraill fyddai'n elwa petai pobl ifanc yn cael lleisio barn? Sut gallwch chi ymgorffori cyfranogiad yn rhan reolaidd o'ch cylch cynllunio ac adolygu?

## Sesiwn mewn stori

*Cyn y sesiwn mae Jordan yn arddangos y daflen addunedu i'w chydweithwyr ac yn gweithio gyda nhw i greu dau fideo newydd i'r wefan. Yn ogystal â cheisio defnyddio'r cynghorion ar y daflen addunedu, mae Jordan a'r tîm hefyd yn ceisio defnyddio llawer o'r syniadau eraill a awgrymwyd gan y bobl ifanc. Mae Jordan hefyd yn defnyddio'r fideos a'r adnoddau roedd y bobl ifanc wedi'u creu i baratoi fideo byr ychwanegol am eu prosiect. Mae Jordan hefyd yn creu tystysgrif i bob un o'r bobl ifanc.*

*Oherwydd bod bwlch hirach na'r arfer rhwng y sesiynau, mae Jordan yn anfon fideo cyfarch wythnos ymlaen llaw i atgoffa'r grŵp am ei hymweliad. Mae Jordan yn gwisgo'r un dillad ag o'r blaen yn y fideo, ac yn eu gwisgo eto ar gyfer y sesiwn wythnos yn ddiweddarach. Ar ddechrau'r sesiwn mae Jordan yn crynhoi'r cyflwyniad ac yn defnyddio'r un gweithgaredd torri'r iâ â'r tro diwethaf. Yna mae Jordan yn defnyddio amserlen weledol i esbonio beth fydd yn digwydd yn y sesiwn. Mae'r amserlen yn cynnwys lluniau ar gyfer y gweithgareddau canlynol: eistedd lawr; gwylio fideos; dathlu; chwarae gêm; gorffen.*

*Mae Jordan yn dangos y fideos i'r grŵp, gan ddechrau gyda'r fideo am y prosiect, i atgoffa'r grŵp am yr holl weithgareddau a thrafodaeth gawson nhw.*

*Yna mae Jordan yn dangos y ddau fideo newydd ar y wefan. Ar ôl pob fideo mae Jordan yn edrych ar y rhestr o gynghorion roddodd y grŵp, ac yn esbonio sut mae'r fideo wedi ceisio defnyddio'u syniadau. Maen nhw wedi defnyddio'r holl syniadau ar yr adduned heblaw un, sef cynnwys jôcs. Mae Jordan yn esbonio bod hynny'n rhy anodd – allai hi a'i chydweithwyr ddim meddwl am unrhyw jôcs da oedd yn trafod hawliau plant! Ar ôl pob fideo mae Jordan yn gofyn i'r grŵp roi eu bodiau i fyny os ydyn nhw'n ei hoffi.*

*Mae Jordan yn rhoi tystysgrif i bob un o'r cyfranogwyr am helpu gyda'r prosiect yma, ac mae'r grŵp cyfan yn rhoi clap i bob cyfranogwr. Mae Jordan yn esbonio y bydd hi'n anfon dolen i'r fideo yn esbonio'r prosiect at arweinydd y grŵp ieuenctid, a fydd yn ei roi ar eu gwefan ac yn ei rannu gyda theuluoedd ac ysgolion/a cholegau.*

*Mae Jordan yn gofyn i'r grŵp oes yna rywbeth arall bydden nhw'n hoffi ei wella nawr eu bod nhw eisoes wedi gwneud y gwahaniaeth yma? Mae gan y grŵp lawer o syniadau ar gyfer pethau bydden nhw'n hoffi eu gwella yn eu cymunedau. Mae Jordan yn dangos adnodd "Gwneud Gwahaniaeth" y Comisiynydd Plant iddyn nhw, ac mae'r grŵp yn cytuno i wneud y gweithgaredd yma gydag arweinydd eu grŵp ieuenctid.*

*I gloi, mae'r grŵp yn chwarae cerfluniau cerddorol a gêm arall gyfarwydd iddyn nhw, o'r enw 'Beans'. Maen nhw'n cael gêm ychwanegol oherwydd eu bod wedi colli'r gêm y tro diwethaf. Ar ôl y sesiwn mae Jordan yn cadw mewn cysylltiad ag arweinydd y grŵp ieuenctid, er mwyn gallu cynnwys y grŵp mewn ymgyngoriadau yn y dyfodol.*